OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2019 Rhif 1226 (Cy. 216)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Caerllion, Casnewydd i Gylchfan Cwmbrân, Torfaen) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *2 Medi 2019* |
| *Yn dod i rym* | *7 Medi 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A4042, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), 14(4) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Cychwyn a Dehongli

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Caerllion, Casnewydd i Gylchfan Cwmbrân, Torfaen) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 7 Medi 2019.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

---

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 7 Medi 2019 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A4042 Casnewydd i Amwythig.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y’i dangosir gan arwyddion traffig.

**Dirymu**

**5.** Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Grove Park i Gylchfan Caerllion, Casnewydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2019(**2**) wedi ei dirymu.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 2 Medi 2019

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLEN

Y darn o gerbytffordd tua’r gorllewin y gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Caerllion hyd at drwyniad ffordd ymadael tua’r gorllewin Cyffordd 25A yr M4.

Y darn o gerbytffordd tua’r dwyrain y gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan

(**2**) O.S. 2019/361 (W.84)

Grove Park hyd at ei chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Caerllion, Casnewydd.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Grove Park, Casnewydd hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Croes-y-mwyalch, Torfaen.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Croes-y-mwyalch hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Crown, Torfaen.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Crown hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Turnpike, Torfaen.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Turnpike hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Edlogan Way, Torfaen.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Edlogan Way hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Cwmbrân, Torfaen.